(Teitl sleid cychwynnol – Gyrfa Cymru Careers Wales)

Helo, Sara dw i a dw i'n Gynghorydd Gyrfa gyda Gyrfa Cymru.

Rydym yn gwybod dy fod yn poeni neu'n bryderus ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa bresennol a'r holl newidiadau sydd wedi digwydd i arholiadau mewn ysgolion a cholegau.

Efallai dy fod yn ystyried gadael y cwrs neu yn dechrau amau os wyt ti wedi gwneud y penderfyniad cywir.

Yr hyn sy'n bwysig ar hyn o bryd yw peidio â rhuthro i wneud penderfyniad y byddi di'n ei ddifaru nes ymlaen.

Yn Gyrfa Cymru, rydym yma i dy helpu a gallwn gynnig cymorth, cyngor a chyfarwyddyd i ti.

Pam ydwi'n cael amheuon am y cwrs?

Paid â phoeni os byddi di'n cael amheuon am dy gwrs. Efallai dy fod wedi newid dy gynllun gyrfa ac awydd newid cyfeiriad. Neu, efallai dy fod yn sylweddoli nad yw'r cwrs yn addas i ti.

Os byddi di'n cael amheuon am dy gwrs, yna siarad gyda dy athro neu dy diwtor a mi fyddan nhw yn gallu egluro i ti y cymorth sydd ar gael. Cofia hefyd, mae Gyrfa Cymru yma bob tro i helpu.

Beth is ydwi'n cael trafferth gyda fy opsiynau yn y dyfodol?

Gelli wneud penderfyniadau gwell pan fyddi di'n gwybod beth yw dy holl opsiynau. Er mwyn sicrhau dy fod yn gwneud y penderfyniadau cywir, gwna'n siwr dy fod yn ymchwilio'n llawn i dy holl syniadau.

Dim ots pa gwrs wyt ti'n ei ddilyn mi fydd di angen gwybod beth yw dy opsiynau pan fyddi'n barod i adael yr ysgol neu'r coleg.

P'un a fyddi di'n ystyried mynd ymlaen i addysg uwch, i gael hyd i swydd, cychwyn prentisiaeth, cychwyn busnes dy hun neu cymryd blwyddyn allan, cofia mae Gyrfa Cymru yma i dy helpu i wneud y penderfyniad yna.

Pwy sy'n gallu fy helpu gyda fy nghamau nesaf?

Aros! Paid rhoi'r gorau iddi! Mae Gyrfa Cymru dy helpu os yw pethau yn mynd yn dda neu ddim cystal.

Chwilia Gyrfa Cymru 'Aros! Paid rhoi'r Gorau Iddi' Gyrfa Cymru i gael gwybodaeth ac adnoddau ar-lein

Cysyllta â ni ar 0800 028 4844 neu beth am gael sgwrs byw gyda un o'n cynghorwyr gyrfa ar ein gwefan gyrfacymru.llyw.cymru.